**Uwch saer golygfeydd**
**Theatr Clwyd**
Disgrifiad Swydd

Teulu: Creu Theatr

Yn adrodd i: Rheolwr Gweithdy

Yn gyfrifol am: Goruchwylio prosiect y Saer Golygfeydd ac aelodau dros dro eraill tîm y gweithdy yn ôl yr angen

**Pwrpas y Swydd**

Gweithio fel rhan o dîm y Gweithdy Adeiladu Golygfeydd gydag arbenigedd mewn adeiladu setiau, darparu gwasanaeth o'r safonau uchaf posibl i gynyrchiadau Theatr Clwyd, ac ysgwyddo cyfrifoldeb am arwain elfennau'r prosiect yn ôl yr angen. Gan weithio'n bennaf yn ardal y Gweithdy, byddwch yn gweithio yn achlysurol ochr yn ochr â chydweithwyr mewn meysydd eraill yn yr Adran Gynhyrchu.

**Cyfrifoldebau allweddol**

**Cyffredinol**

- Dan reolaeth Rheolwr y Gweithdy, a chan ddefnyddio sgiliau adeiladu mewn gwaith saer a gwneuthuriad metel, bod yn gyfrifol am adeiladu setiau, props neu unrhyw eitem gynhyrchu yn ôl y gofyn, i'r safonau uchaf posibl ac o fewn yr amser a'r gyllideb a neilltuwyd.
- Goruchwylio'r Saer Golygfeydd ac aelodau eraill o dîm y gweithdy, lle bo hynny'n briodol, a helpu i gydlynu'r gweithdy, gan roi gwybod i Reolwr y Gweithdy am gynnydd y gwaith.
- Ar y cyd â Rheolwr y Gweithdy, helpu i gynllunio a rheoli llif gwaith yr adran ac arwain y tîm yn ystod y gwaith adeiladu, ffitio, symud allan a thynnu’r set i lawr yn ôl yr angen, gan sicrhau amgylchedd gwaith diogel a chydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â gweithle diwydiannol (gan gynnwys PUWER, COSHH, LOLER).
- Dirprwyo a rheoli'r adran yn absenoldeb Rheolwr y Gweithdy.
- Gweithio ochr yn ochr â thimau Adeiladu a Golygfeydd i fod yn gyfrifol am amgylchedd gwaith glân, taclus a threfnus a sicrhau cynnal a chadw'r gweithdy o ddydd i ddydd.
- Cynorthwyo i archebu deunyddiau ac offer, monitro a chynnal lefelau stoc y gweithdy.
- Ochr yn ochr â Rheolwr y Gweithdy, rhoi'r holl wybodaeth ymarferol angenrheidiol i’r cynllunwyr.
- Cynorthwyo yn ystod wythnosau ffitio a chynhyrchu i sicrhau eu bod yn rhedeg yn esmwyth.

- Gwneud gwaith ymarferol mewn perthynas â symud i mewn, ffitio, tynnu'r set i lawr a symud allan, gan gynnwys cydosod, rigio, addasu a defnyddio golygfeydd, props, rigio ac offer codi.
- Gweithio gyda Rheolwr y Gweithdy i sicrhau hyfforddiant a monitro perfformiad y Saer Golygfeydd ac aelodau eraill o dîm y gweithdy.
- Dehongli cynlluniau a chynorthwyo i baratoi cynlluniau a darluniau gwaith, gan ddefnyddio CAD a rhaglenni eraill.
- Rhoi gwybod i Reolwr y Gweithdy os oes angen llogi neu brynu unrhyw offer arbenigol.
- Lle bo angen, darparu cymorth technegol i ddefnyddwyr allanol.
- Cysylltu â Rheolwr y Gweithdy a'r Rheolwr Celf Golygfeydd i helpu i sicrhau bod yr adran yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon drwy gydol y broses adeiladu, sy'n cynnwys gwaith adeiladu a golygfeydd.
- Mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen a chynrychioli'r adran yn absenoldeb Rheolwr y Gweithdy.

**Iechyd a Diogelwch**

• Sicrhau bod yr holl ofynion Iechyd a Diogelwch yn cael eu bodloni bob amser wrth weithio.

• Mynychu hyfforddiant yn ôl yr angen a chynnal ymwybyddiaeth o reoliadau Iechyd a Diogelwch sy'n benodol i'r gofod, y peiriannau a'r offer a ddefnyddir.

• Sicrhau bod yr holl offer arbenigol yn cael ei gau i lawr yn gywir ar ddiwedd pob diwrnod gwaith.

• Sicrhau bod yr holl beryglon posibl yn cael eu gwneud yn ddiogel cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl.

• Cynhyrchu asesiadau risg a datganiadau dull yn ôl yr angen ar gyfer prosiectau neu dasgau penodol.

**Arall**

• Sicrhau bod yr holl offer yn cael ei storio'n ddiogel a'i fod yn hygyrch i ddefnyddwyr awdurdodedig.

• Pan fo angen, ymgymryd a stocrestr o'r holl offer a'r deunyddiau sy'n cael eu cadw a'u defnyddio.

• Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill fel sy'n rhesymol ofynnol gan y Rheolwr Gweithdy, y Rheolwr Cynhyrchu neu'r Pennaeth Cynhyrchu.

**Manyleb y Person**

**Hanfodol**

- Profiad perthnasol ymarferol o weithio ym maes adeiladu, gwaith saer a / neu wneuthuriad metel, mewn amgylchedd gweithdy.
- Sgiliau a hyfforddiant sylweddol mewn dulliau adeiladu gan gynnwys gwaith saer / saernïaeth a / neu weldio a gwneuthuriad metel.
- Profiad clir o weithio mewn tîm a goruchwylio neu arwain prosiectau i'w cwblhau.
- Profiad clir o baratoi a dehongli cynlluniau a darluniau adeiladu, gyda gwybodaeth am CAD a rhaglenni eraill.
- Gallu i ddefnyddio a chynnal ystod eang o offer a pheiriannau gweithdy yn ddiogel ac yn hyderus.
- Gallu i ddefnyddio ystod eang o offer pŵer cludadwy ac offer llaw yn ddiogel ac yn hyderus.
- Meddwl y tu allan i'r bocs; gallu i gynnig atebion creadigol i wireddu cynllun gyda'r adnoddau sydd ar gael.
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol, gyda'r gallu i gyfathrebu'n glir ac yn gyson â phob defnyddiwr theatr a gofod digwyddiadau, yn enwedig defnyddwyr nad ydynt yn dechnegol.
- Dull trefnus o weithio, gydag enw da am gwrdd â therfynau amser a rheoli blaenoriaethau sy'n gwrthdaro.
- Profiad o weithredu gofynion Iechyd a Diogelwch ac asesiadau risg.
- Hyder wrth weithio'n annibynnol, ond hefyd parodrwydd i gydweithredu ar draws llawer o adrannau.
- Gallu gweithio oriau hyblyg ac anghymdeithasol gan gynnwys gyda'r nos ac ar rai penwythnosau.

**Dymunol**

- Profiad o weithio mewn gweithdy adeiladu golygfeydd theatrig
- Profiad a gwybodaeth am gynhyrchu theatr prif ffrwd y DU.
- Gwybodaeth ymarferol am ddulliau rigio a defnyddio offer codi yn ddiogel.
- Profiad o osod a rigio systemau golygfeydd a decin llwyfan.
- Tystysgrif tryc fforch-godi gyfredol.
- Hyfforddiant mewn trin â llaw, defnyddio ystolion yn ddiogel a gweithio ar uchder.
- Tystysgrif cymorth cyntaf gyfredol.
- Cymraeg ysgrifenedig a llafar.
- Trwydded yrru lawn.